

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llwybr Newydd
# Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

**Canllaw i'r strategaeth drafnidiaeth sy'n hawdd ei ddeall**



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon | 3 |
| Beth yw strategaeth drafnidiaeth? | 4 |
| Beth yw ystyr trafnidiaeth? | 5 |
| Sut ydyn ni'n helpu trafnidiaeth yng Nghymru nawr? | 8 |
| Pam fod angen strategaeth newydd arnom? | 10 |
| Beth mae ein strategaeth yn ei ddweud? | 14 |
| Beth yw'r pethau mwyaf pwysig sydd angen i ni eu gwneud? | 15 |
| Pam ydym angen gwneud hyn? | 17 |
| Beth sy'n digwydd nesaf? | 19 |
| Diolch i chi am ein helpu | 21 |


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall.

Efallai y bydd angen i chi gael help i'w ddarllen a'i ddeall. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Ystyr 'ni' yw Llywodraeth Cymru.






# Beth yw strategaeth drafnidiaeth?

Rydym eisiau gwella Trafnidiaeth yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi strategaeth drafnidiaeth newydd i'n helpu i wneud hynny.

Mae'r strategaeth yn ddogfen sydd yn egluro sut y byddwn ni'n gwella trafnidiaeth yng Nghymru.

Does dim digon o arian gennym ni i wneud popeth. Felly bydd strategaeth yn ein helpu i benderfynu yr hyn sydd fwyaf pwysig.






# Beth yw ystyr Trafnidiaeth?

Trafnidiaeth sy'n mynd â phobl o un lle i'r llall.

Mae hefyd yn mynd â phethau o un lle i'r llall. Pethau bach fel parseli neu fwyd, neu bethau mawr fel peiriannau.



Mae’r mathau gwahanol o drafnidiaeth yn cynnwys:

- cerdded
- beicio
- bysiau
- trenau
- ceir
- trafnidiaeth gymunedol fel bysiau lleol
- lorïau a faniau
- llongau
- awyrennau
- tacsis






Mae Trafnidiaeth hefyd yn ddibynnol ar seilwaith. Mae seilwaith yn cynnwys y pethau sydd eu hangen arnom i wneud i drafnidiaeth weithio.

Mae seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys:

- rheilffyrdd a gorsafoedd
- ffyrdd
- meysydd parcio
- lonydd beicio
- pontydd, goleuadau stryd ac arwyddion ffordd
- arosfannau bysiau a cysgodfannau bysiau
- porthladdoedd a harbyrau
- meysydd awyr



# Sut rydyn ni'n helpu trafnidiaeth yng Nghymru nawr

Rydym yn gwneud nifer o bethau i helpu trafnidiaeth yng Nghymru.

Rydym yn atgyweirio ffyrdd a'u cadw'n ddiogel.

Rydym hefyd yn ariannu pethau sy'n annog mwy o bobl i gerdded a beicio, fel lonydd beicio newydd fel y gall mwy o bobl ddefnyddio'u beiciau yn ddiogel.

Rydym yn ariannu gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau lleol a gwasanaethau







teithiau hir. Rydym hefyd yn ariannu gostyngiadau i bobl ifanc.
Rydym hefyd yn ariannu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru.

Rydyn ni wedi creu sefydliad newydd o'r enw 'Trafnidiaeth Cymru'. Mae'n ein helpu ni i ddarparu trafnidiaeth yng Nghymru, gan gynnwys rhai o'r gwasanaethau trenau.

Maent hefyd yn adeiladu metros newydd. System drafnidiaeth sy'n defnyddio bysiau, trenau a rheilffyrdd ysgafn i gyd gyda'i gilydd yw metro, ac mae'n rhedeg yn amlach ac i fwy o leoedd.

Ac rydym yn ariannu pethau i wneud gwasanaethau trafnidiaeth yn fwy hygyrch fel rampiau i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.





# Pam fod angen strategaeth newydd arnom?

Gwnaethom ysgrifennu ein strategaeth ddiwethaf yn 2008. Mae llawer o bethau wedi newid ers hynny.

Er enghraifft, mae gennym ni gyfraith newydd sy'n golygu bod rhaid i ni feddwl mwy am genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu bod angen i ni feddwl am yr amgylchedd a phobl yn y dyfodol, a meddwl am beth sy'n digwydd nawr hefyd.

Hefyd, mae angen i ni wella rhai pethau am drafnidiaeth yng Nghymru o hyd.





# Ceir

Mae angen i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru ddefnyddio car i fynd o le i le. Yn enwedig os ydyn nhw'n byw mewn ardal wledig.

Ond mae ceir yn ddrwg i'r amgylchedd. Maen nhw'n rhyddhau nwy sy'n gwneud newid hinsawdd yn waeth.

Pan fyddwch chi'n gyrru car, bydd y teiars yn gwisgo. Mae darnau mân o'r teiars yn gallu mynd i mewn i'r aer yr ydyn ni'n ei anadlu. Mae hyn yn ddrwg i'n hiechyd – yn enwedig i blant.

A gall llawer o geir olygu mwy o dagfeydd.





# Bysiau a threnau

Mae angen i lawer o bobl yng Nghymru ddefnyddio bysiau a threnau oherwydd does ganddyn nhw ddim car.

Ond, efallai eu bod nhw'n poeni am wneud hynny.

Efallai na fydd y bws yn cyrraedd ar amser.

Efallai na fydd digon o le i gadair olwyn.

Fydd bysiau a threnau ddim bob amser yn mynd i ble rydych chi am fynd, pan fyddwch chi a fynd yno.

Mae pobl yn poeni y gallen nhw ddal COVID-19 ar fws neu drên.

Mae llawer o leoedd yng Nghymru yn bell i ffwrdd o orsaf drenau, felly dyw pobl ddim yn gallu defnyddio'r trên.



# Cerdded a beicio

Rydyn ni am i fwy o bobl gerdded a defnyddio beic.

Mae hyn am fod cerdded a beicio yn dda i'ch iechyd. Mae hefyd yn golygu llai o geir ar y ffyrdd.

Ond mae llawer o bobl yng Nghymru ddim yn gallu cerdded neu feicio. Neu tydyn nhw ddim yn teimlo'n ddiogel.



# Beth mae ein strategaeth newydd yn ei ddweud?

Mae'n dweud ein bod ni am gael system drafnidiaeth sy'n hygyrch, effeithlon a chynaliadwy.

Ystyr hygyrch yw bod mwy o bobl yn gallu defnyddio'r system drafnidiaeth.

Ystyr effeithlon yw system drafnidiaeth sy'n cael pobl i ble maen nhw eisiau mynd, pan maen nhw eisiau mynd yno, ac sy'n gwneud defnydd da o adnoddau.

Ystyr cynaliadwy yw bod y system drafnidiaeth yn dda i Gymru hefyd.






# Beth yw’r pethau pwysicaf yr ydym angen eu gwneud?

Mae ein strategaeth newydd yn dweud bod tri pheth pwysig i’w gwneud.

Yn gyntaf, rydym am rydyn ni am gael mwy o wasanaethau lleol er mwyn lleihau’r angen i deithio. Mae hyn yn golygu mwy o wasanaethau lleol fel fydd dim angen i bobl ddefnyddio’r car bob dydd.

Yn ail, rydym eisiau galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gyda thrafnidiaeth gynaliadwy. Mae hyn yn golygu ein bod eisiau cefnogi mwy o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, a mwy o gerdded a beicio. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod gennym seilwaith trafnidiaeth da yng Nghymru fel ei bod yn haws cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.




Yn drydydd, rydym am i fwy o bobl adael y car tu ôl. Felly byddwn yn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn fwy deniadol a fforddiadwy i bawb.

Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys naw cynllun bach. Er enghraifft, mae un ar gyfer cerdded a beicio, ac un ar gyfer bysiau, trenau, tacsis a thrafnidiaeth gymunedol. Mae'r cynlluniau bach yn dweud mwy am beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y gwahanol fathau o drafnidiaeth.





# Pam ydym angen gwneud hyn?

Yng Nghymru, rydym angen meddwl am y dyfodol. Mae'n rhaid i ni feddwl am yr hyn 'rydyn ni ei eisiau i'n plant, a'u plant nhw.

Felly, yn yr hirdymor, rydym eisiau gwneud yn siŵr bod ein system drafnidiaeth yn dda i bobl ac i gymunedau. Mae hyn yn golygu ein bod eisiau i bawb deimlo'n hyderus am ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus - p'un ai eich bod yn anabl ai peidio. Rydym am i bobl yng Nghymru fod yn iachach oherwydd bod yr aer yn lanach a bod mwy o bobl yn cerdded a beicio bob dydd.

Rydym eisiau sicrhau nad yw ein system drafnidiaeth yn niweidio'r amgylchedd. Felly rydym angen mwy o geir trydan a bysiau, a lorïau a mathau eraill o drafnidiaeth sydd yn lanach. Mae angen i ni hefyd edrych ar ôl natur a sicrhau bod llai o wastraff o drafnidiaeth.




Rydym eisiau system drafnidiaeth sydd yn dda i leoedd lleol ac i'r economi. Mae hyn y golygu y dylai fos yn haws i fynd o le i le drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus  neu gerdded a beicio, hyd yn oed os ydych yn byw mewn ardal wledig.

Ac yn olaf, rydyn ni'n meddwl am ddiwylliant a'r Gymraeg. Felly rydyn ni am sicrhau eich bod chi'n gallu defnyddio'r Gymraeg ar fysiau neu drenau os ydych chi eisiau. A bod gwasanaethau bysiau a threnau da i ddigwyddiadau chwaraeon. Rydym hefyd angen gofalu am dreftadaeth trafnidiaeth yng Nghymru.




# Beth sy'n digwydd nesaf?

Gan eid bod nawr wedi cyhoeddi ein strategaeth, mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud y byddwn ni'n ei wneud.

Y cam nesaf yw i ysgrifennu cynllun sy'n dweud ar beth y byddwn yn gwario arian.

Yna bydd yr awdurdodau lleol yn helpu i ysgrifennu cynlluniau rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth ym mhob rhan o Gymru.



**A fydd y strategaeth newydd yn gwneud i'm bws ddod ar amser neu'n trwsio'r ffordd y tu allan i'm tŷ?**




Mae gormod o ffyrdd a bysiau i gynnwys pob un ohonynt yn y strategaeth!

Ond mae'r strategaeth yn ymwneud â'r holl fysiau, yr holl drenau a'r holl ffyrdd yng Nghymru.

Bydd yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau mawr am hynny.

Bydd hefyd yn ein helpu i benderfynu ble y dylem wario arian.




# Diolch i chi am ein help ni

Mae llawer iawn o bobl wedi ein helpu i ysgrifennu'r strategaeth hon.

Fe wnaethom siarad â rhai pobl mewn cyfarfodydd.

Er enghraifft, rydym wedi siarad â phobl ifanc a phobl hŷn. Rydym wedi siarad â phobl anabl a phobl gydag anabledd dysgu. Fe wnaethant ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio bysiau neu dacsis neu drenau.

Hefyd anfonodd dros 400 o bobl a sefydliadau eu hatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gennym yn ein ymgynghoriad.

Rydym wedi defnyddio'r holl wybodaeth i wella ein strategaeth.

Diolch i chi!

Llywodraeth Cymru
Welsh Government